**Cyfarfod Llawn 2001-2002(17)**

**Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2001**

# AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 3**
**Cymeradwyo'r Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001**

*NDM726* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn ystyried egwyddor **Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig, sy'n darllen:
Yn galw ar y Gweinidog i edrych ar gyfleoedd i wneud y prosesau penderfynu o ran dehongli cymorthdaliadau amaethyddol yn fwy effeithiol eto, er mwyn lleihau nifer yr apeliadau.

*NDM727* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi o dan Reol Sefydlog 11.5 unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft**, Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001; ac

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y

Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001.

Cliciwch yma am y rheoliadau drafft
Cliciwch yma am adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 4**
**Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau'r Premiwm Arbennig Eidion 2001 (o dan Reol Sefydlog 23)**
*NDM728* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:
Yn cymeradwyo drafft y **Rheoliadau Premiwm Arbennig Eidion 2001**, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2001, a'r Memorandwm Esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2001.

Cliciwch yma am y rheoliadau drafft - ar gael yn Saesneg yn unig
Cliciwch yma am y Memorandwm Esboniadol - ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 5**
**Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2001**
*NDM729* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn ystyried egwyddor **Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2001.

*NDM730* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi o dan Reol Sefydlog 11.5 unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft**, Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001; a

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2001 a'r Gwerthusiad Rheoleiddio a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2001.

Cliciwch yma am y rheoliadau drafft
Cliciwch yma am adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma am y Gwerthusiad Rheoleiddio - ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 6**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Addysg Bellach) (Cymru) 2001**

***NDM731* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:**
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Addysg Bellach) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2001.

*NDM732* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi o dan Reol Sefydlog 11.5 unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft**, Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Addysg Bellach) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2001; ac

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2001;

Cliciwch yma am y rheoliadau drafft
Cliciwch yma am adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 7**
**Dadl ar leihau biwrocratiaeth mewn ysgolion**
*NDM733* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu adroddiad y prosiect i leihau'r baich biwrocrataidd ar ysgolion yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2001 a'r gweithio ar y cyd sy'n sail iddo.

2. Yn cydnabod bod y camau a argymhellir yn yr adroddiad yn fan cychwyn ac y bydd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaid weithredu arnynt os dymunir i athrawon ac ysgolion weld lleihad ym maint y fiwrocratiaeth y maent yn gorfod delio â hi.

3. Yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad a'r camau gweithredu cysylltiedig a nodir.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)+(4)
(2)+(3)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ym mhwynt bwled 2, dileu'r geiriau "ac y bydd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaid weithredu arnynt" a rhoi yn eu lle "a bod angen adnoddau ychwanegol".

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt bwled newydd
Yn nodi gyda phryder y cynnydd mewn biwrocratiaeth mewn ysgolion yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ac yn galw ar Weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol/y Blaid Lafur i gyflwyno polisïau i leihau'r baich hwnnw erbyn 2003.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt bwled newydd
Yn galw ar Weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol/y Blaid Lafur i gyflwyno "prawf biwrocratiaeth" er mwyn sicrhau na fydd polisïau addysg a gyflwynir yn y dyfodol yn cynyddu'r baich biwrocrataidd ar ysgolion.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog Addysg i gymryd camau ar fyrder i leihau'r beichiau sy'n deillio o'r pwyslais gormodol ar dargedau, gofynion y drefn arolygu, profion cyrhaeddiad a baich y cwricwlwm er mwyn parchu gallu proffesiynol athrawon a rhyddhau mwy o'u hamser ar gyfer eu prif gyfrifoldeb, sef addysgu eu disgyblion.

Cliciwch yma am Adroddiad y Prosiect i Leihau'r Baich Biwrocrataidd ar Ysgolion yng Nghymru - ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 8**
**Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 14 (sy'n ymdrin â lleihau biwrocratiaeth mewn ysgolion)**
***NDM735* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:**
O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 14) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Llun 2 Gorffennaf 2001.

Cliciwch yma am Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 14) (Cymru) 2001 - ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 9**
**Dadl ar yr adroddiad ar cyflenwi lleoedd mewn ysgolion**
*NDM734* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, "Policy Review - Supply of School Places", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2001.

Cliciwch yma am adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, "Policy Review - Supply of School Places" - ar gael yn Saesneg yn unig

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05am ddydd Iau, 12 Gorffennaf 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**